Cyllideb 2002

taflen grynodeb

Y grym meddwl i wneud penderfyniadau hir-dymor:

Buddsoddi mewn Prydain flaengar a thecach

HM TREASURY

Ebrill 2002

Cyllideb 2002

Y grym meddwl i wneud penderfyniadau hir-dymor:
Buddsoddi mewn Prydain flaengar a thecach

Ymhlith mesurau allweddol y Gyllideb mae...

- y cynnydd parhaus mwyaf erioed yn adnoddau'r GIG, er mwyn sicrhau sylfaen ariannol hir-dymor gynaliadwy i'r gwasanaeth iechyd;
- un y cant yn ychwanegol ar gyfraniadau yswiriant gwladol a delir gan gyflogwyr, cyflogeion a'r hunan-gyflogedig ar unrhyw enillion sy'n uwch na'r trothwy cyfraniadau yswiriant gwladol sef £89 yr wythnos o fis Ebrill 2003;
- gostwng cyfradd ddechreuol treth gorfforaeth o 10 y cant i ddim a gostwng cyfradd cwmnïau bach i 19 y cant;
- cynnydd o £2.50 yr wythnos yn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio o fis Mehefin 2002 a £3.50 yr wythnos yn lwfansau plant y Cymhorthdal Incwm a'r Lwfans Ceisio Gwaith o fis Hydref 2002;
- Credyd Treth Plant newydd o 2003 a fydd yn rhoi llif diogel o incwm i deuluoedd â phlant;
- Credyd Treth Gweithio newydd o 2003 a fydd yn sicrhau bod gwaith yn talu'r ffordd i bobl ar incwm isel gyda neu heb blant;
- rhewi pob toll tanwydd ffordd, gan gynnwys petrol a disel â sylffwr tra isel a chyfraddau toll ecseis cerbydau; a
- rhewi tollau ar wirodydd, gwinoedd a chwrw; cynnydd gwirioneddol yn y doll a godir ar alcopops; a chynnydd yn y tollau a godir ar dybaco yn unol â chwyddiant.

Effaith mesurau'r Gyllideb

O ganlyniad i'r holl fesurau sy'n gysylltiedig â threth bersonol a budd-daliadau:

- bydd person ar enillion canolrifol sef £21,400 yn talu £3.70 yr wythnos yn ychwanegol;
- bydd teulu ag un sy'n ennill a dau o blant, ar enillion canolrifol, yn cael £3.90 yr wythnos yn ychwanegol o ganlyniad i'r Credyd Treth Plant; a
- bydd 50 y cant o deuluoedd â phlant ar eu hennill.

Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n diwallu anghenion pawb ar draws y DU. Mae Cyllideb 2002 yn ychwanegu £4 biliwn at y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yn 2003-04 ac yn cyhoeddi cynnydd parhaus pellach o ran buddsoddiadau yn y dyfodol.

Moderneiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Mae'r Llywodraeth yn credu mewn gwasanaeth iechyd sy'n rhad ac am ddim lle mae'r angen ac ar gael i bawb. Ond mae angen diwygio a buddsoddi ymhellach yn y GIG er mwyn iddo gystadlu â goreuon y byd. Felly mae Cyllideb 2002 yn cyhoeddi'r cynnydd parhaus mwyaf erioed yn adnoddau'r GIG:

- twf blynyddol cyfartalog o 7.4% mewn termau real yng ngwariant y DU ar y GIG am bum mlynedd, gan roi i'r GIG sylfaen ariannol hir-dymor gynaliadwy; a
- cynnydd yn yr arian a werir ar y GIG fesul cartref o £2,370 yn 2001-02 i £4,060 yn 2007-08 – sef cynnydd o 48 y cant mewn termau real; a
- bydd adnoddau yn mynd law yn llaw â diwygiadau er mwyn sicrhau bod y GIG yn cyflwyno gwasanaethau o safon a fydd yn bodloni disgwyliadau'r cyhoedd. Yn y dyfodol, bydd adroddiad blynyddol annibynnol i'r Senedd yn manylu ar yr arian a roddwyd i'r GIG, lle y cafodd ei wario a chanlyniad y gwariant hwnnw.

Gwariant y GIG yn y DU

£biliwn	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08	Twf gwirioneddol cyfartalog
Cynllun blaenorol	65.4	69.7					
Darpariaeth newydd		72.1	79.3	87.2	95.9	105.6	7.4%

Noder: Mae ffigurau'r DU yn amodol ar benderfyniadau'r gweinyddiaethau datganoledig.

Gwella gofal cymdeithasol

Er mwyn ategu'r broses o ddiwygio'r GIG mae'r Llywodraeth hefyd yn ymrwymedig i wella gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn enwedig gofal i'r henoed a phlant, a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'r Gyllideb yn nodi cynlluniau newydd sy'n cwmpasu:

- twf o 6 y cant y flwyddyn mewn termau real o ran adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol yn Lloegr dros y tair blynedd nesaf – yn uwch o dipyn na'r cyfartaledd hanesyddol.

Ariannu gwasanaethau cyhoeddus gwell

Sefydlogrwydd economaidd a chyllid cyhoeddus cadarn yw'r sylfaen orau ar gyfer ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn yr hir-dymor. Er mwyn sicrhau sylfaen gynaliadwy i'r GIG tra'n cadw disgyblaeth gyllidol a bodloni blaenoriaethau'r Gyllideb:

- bydd **un y cant yn ychwanegol ar gyfraniadau yswiriant gwladol** gan gyflogwyr, cyflogeion a'r hunan-gyflogedig ar unrhyw enillion sy'n uwch na'r trothwy cyfraniadau yswiriant gwladol o fis Ebrill 2003; a
- caiff **lwfans personol treth incwm a throthwy cyfraniadau yswiriant gwladol eu rhewi** yn 2003-04, heblaw lwfansau pensiynwyr a fydd yn codi'n uwch na chwyddiant.

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai GIG a ariennir gan y trethdalwr yw'r ffordd orau o sicrhau y caiff costau eu rhannu'n eang ac mewn modd teg a bod gofal iechyd ar gael yn ôl angen, nid ar sail y gallu i dalu. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, ym mis Ebrill 2003:

- bydd person ar enillion canolrifol sef £21,400 yn talu £3.70 yr wythnos yn ychwanegol;
- bydd person ar 50 y cant o enillion canolrifol (£10,700) yn talu £1.65 yr wythnos yn ychwanegol;
- bydd person ar 150 y cant o enillion canolrifol (£32,100) yn talu £5.75 yr wythnos yn ychwanegol; ac
- ni fydd pensiynwyr 65 oed neu drosodd yn talu treth ar incwm o dan £127 yr wythnos, na chyfraniadau yswiriant gwladol ychwaith.

Cynnal sefydlogrwydd economaidd

Bu'r llynedd yn flwyddyn anodd i economi'r byd ond parhaodd y DU i brofi twf cyson a sefydlog, gan gynyddu'n gyflymach nag unrhyw un o brif economïau gwledydd G7. Dengys y Gyllideb:

- bod **cyllid cyhoeddus** yn parhau i fod ar y trywydd cywir i fodloni rheolau ariannol llym y Llywodraeth, gyda benthyca a dyled o dan reolaeth sicr;
- y disgwylir i'r **economi** gynyddu rhwng 2 a 2½ y cant eleni a rhwng 3 a 3½ y cant yn 2003; ac
- y bydd **chwyddiant** hefyd yn parhau i fod yn isel ac yn agos at darged y Llywodraeth – y cyfnod hwyaf o chwyddiant isel parhaus ers y 1960au.

Hyrwyddo cynhyrchiant a mentergarwch

Yn hanesyddol, bu lefel allbwn pob gweithiwr – cynhyrchiant – ym Mhrydain yn is na'r prif economïau eraill. Bydd cau'r bwlch o ran cynhyrchiant yn helpu i gyflwyno rhagor o adnoddau i fynd i'r afael â thlodi a gwella gwasanaethau cyhoeddus, gan sicrhau safon byw uwch yn y dyfodol.

Mae Cyllideb 2002 yn cyhoeddi mesurau newydd ar gyfer busnes er mwyn hybu menter a chynyddu cynhyrchiant y DU:

- gostwng cyfradd ddechreuol **treth gorfforaeth** o 10 y cant i ddim a gostwng cyfradd cwmnïau bach 1 y cant;
- lleihau **costau biwrocratiaeth a chydymffurfiad** a osodir ar fusnesau bach gan TAW a systemau gweinyddu'r gyflogres;
- ymestyn **eithriadau rhag y doll stamp ar gyfer busnes a chymhellion treth newydd** er mwyn hyrwyddo mentergarwch a buddsoddiad mewn cymunedau dan anfantais;
- **credyd treth** newydd **i hybu gwaith ymchwil a datblygu** gan gwmnïau mawr, gan ategu'r credyd treth sydd eisoes ar gael i gwmnïau bach; a
- **treialu mesurau newydd i'w gwneud yn haws i gael hyfforddiant** a galluogi pobl â llai o sgiliau sy'n gweithio i uwchraddio eu sgiliau.

Sicrhau cyflogaeth uchel

Ers 1997, mae'r Fargen Newydd wedi helpu dros 350,000 o bobl ifanc i mewn i swyddi. Mae diweithdra hir-dymor ymhlith ieuenctid wedi gostwng mwy na 75 y cant ac mae cyflogaeth wedi codi 1½ miliwn dros yr un cyfnod. Gan adeiladu ar y Fargen Newydd a'r diwygiadau i sicrhau bod gwaith yn talu'r ffordd, mae Cyllideb 2002 yn cymryd camau pellach i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth ar draws y DU:

Nifer y bobl mewn gwaith



Ffynhonnell : Arolwg o'r Gweithlu

- cyflwyno **Credyd Treth Gweithio** newydd o fis Ebrill 2003 a chynyddu'r credyd sylfaenol yn y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio £2.50 yr wythnos o fis Mehefin 2002;
- cynnal cynlluniau peilot sy'n ymestyn cymhwyster ar gyfer y **Fargen Newydd 25+** i geiswyr gwaith sydd wedi bod yn ddi-waith am 18 mis yn ystod y tair blynedd flaenorol;
- cyflwyno **mentoriaid personol** i helpu rhieni unigol i mewn i waith ac ymestyn cymhwyster ar gyfer credyd treth gofal plant; a
- lansio **cronfa newydd gwerth £5 miliwn i fynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth** sy'n cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd difreintiedig.

Caiff y **Credyd Treth Gweithio** ei gyflwyno ym mis Ebrill 2003 i helpu i sicrhau bod gwaith yn talu'r ffordd i bobl ar incwm isel.

Bydd y Credyd Treth Gweithio yn integreiddio'r cymhorthdal sydd ar gael ar hyn o bryd i oedolion o dan y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a'r Credyd Treth i Bobl Anabl. Bydd yn ymestyn cymhorthdal mewn gwaith i bobl ar incwm isel heb blant neu anabledd. Ar adeg ei gyflwyno bydd y Credyd Treth Gweithio yn gwarantu isafswm incwm o:

- £183 yr wythnos i bâr 25 oed neu drosodd heb blant lle mae un o'r pâr yn ennill ac yn gweithio'n llawn amser am yr isafswm cyflog; a
- £237 yr wythnos i deulu gydag un plentyn ac un sy'n ennill sy'n gweithio'n llawn amser am yr isafswm cyflog.

Adeiladu cymdeithas decach

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant a phensiynwyr, gan wobrwyo'r rhai sy'n cynilo a datblygu system drethu fodern a theg lle mae pawb yn talu cyfran deg. Mae Cyllideb 2002:

- yn cyflwyno **Credyd Treth Plant** newydd o fis Ebrill 2003 ac yn cynyddu lwfansau plant y Cymhorthdal Incwm a'r Lwfans Ceisio Gwaith £3.50 yr wythnos o fis Hydref 2002;
- yn cyflwyno **cymhelliant treth newydd i hyrwyddo gwaith ymchwil i gyffuriau a brechlynnau** i drin clefydau sy'n lladd pobl yng ngwledydd tlotaf y byd;
- yn rhewi **tollau** ar wirodydd, gwinoedd a chwrw; yn cynyddu'r doll a godir ar alcopops mewn termau real; a chynyddu'r tollau ar dybaco yn unol â chwyddiant;

- **yn diwygio'r ffordd y caiff olew Môr y Gogledd ei drethu** er mwyn sicrhau trefn sy'n codi cyfran deg o refeniw tra'n hyrwyddo buddsoddiad; ac
- yn cyflwyno mesurau newydd i **fynd i'r afael â thwyll treth a chau bylchau yn y system drethu** er mwyn sicrhau mwy o degwch a diogelu refeniw y llywodraeth.

Caiff y **Credyd Treth Plant** ei gyflwyno ym mis Ebrill 2003 er mwyn darparu un system ddi-dor o gymhorthdal ar sail incwm i deuluoedd â phlant.

Bydd y Credyd Treth Plant yn dwyn ynghyd y cymhorthdal a roddir i blant ar hyn o bryd drwy'r Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio a'r Credyd Treth i Bobl Anabl, y Credyd Treth Plant, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith. Ar adeg ei gyflwyno, bydd y Credyd Treth Plant, a'r Budd-dal Plant cyffredinol yn gwarantu cymhorthdal o:

- £26.50 yr wythnos am y plentyn cyntaf ar gyfer 85 y cant o deuluoedd y mae eu hincwm o dan £50,000 y flwyddyn; a
- £54.25 yr wythnos am y plentyn cyntaf mewn teuluoedd y mae eu incwm o dan £13,000 y flwyddyn.

Diogelu'r amgylchedd

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod yn rhaid cyflawni twf economaidd tra'n diogelu'r amgylchedd, er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i bobl heddiw ac yn y dyfodol. Mae Cyllideb 2002 yn cymryd camau pellach i wella'r amgylchedd, tra'n ymateb i'r prisiau olew uchel, cyfnewidiol yn ddiweddar.

- rhagor o gymhellion treth i **annog busnes i fuddsoddi mewn technolegau sy'n arbed ynni**;
- rhewi pob toll ar danwydd, gan gynnwys **petrol a disel â sylffwr tra isel**, gostwng cyfraddau tollau tua un geiniog y litr mewn termau real a chyflwyno cymhellion tollau newydd yn 2003 i hyrwyddo tanwydd heb sylffwr;
- rhewi cyfraddau'r **doll ecseis cerbydau**, gan gyflwyno cyfradd ostyngol newydd ar gyfer y ceir mwyaf effeithlon, a diwygio'r doll ecseis cerbydau ar gyfer beiciau modur; a
- rhewi'r **doll teithwyr awyr** ac ymestyn y cyfraddau is o'r doll hon i gynnwys teithiau i ystod ehangach o gyrchfannau yn Ewrop.

Ble y gwerir arian trethdalwyr...?

Disgwylir mai tua £418 biliwn fydd cyfanswm y gwariant cyhoeddus eleni, tua £7,000 i bob dyn, merch a phlentyn yn y DU. Disgwylir iddo gynyddu i £455 biliwn yn 2003-04 a £481 biliwn yn 2004-05.

Ble y gwerir arian trethdalwyr

Cyfanswm gwariant rheoledig £418 biliwn



[1] Yn cynnwys gwariant ar weinyddiaeth ganolog, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithredu a datblygu rhyngwladol a phensiynau gwasanaeth cyhoeddus ynghyd â gwariant sydd heb ei ddyrannu eto a rhai addasiadau cyfrifo.

Ffynhonnell: Ffigurau Trysorlys EM, 2002-03 yn dilyn Cyllideb 2002

O ble daw'r trethi

Cyfanswm y derbyniadau £407 biliwn



[1] Yn cynnwys trethi cyfalaf, tollau stamp, tollau ecseis cerbydau a rhai derbyniadau eraill sy'n gysylltiedig â threth a rhai nad ydynt yn gysylltiedig â threth (e.e. llog a difidendau).

Ffynhonnell: Ffigurau Trysorlys EM 2002-03 yn dilyn Cyllideb 2002

I archebu rhagor o gopïau o'r daflen hon, neu i gael copi ar fformat arall, ffoniwch:

0845 601 1041

Am ragor o fanylion ynglŷn â'r Gyllideb, ymwelwch â gwefan y Trysorlys ar http://www.hm-treasury.gov.uk